| | |
|---|---|
| CYFARFOD : | Y CYNGOR |
| DYDDIAD: | 28, CHWEFROR, 2008 |
| TEITL: | ADOLYGU'R DOSBARTHAU PLEIDLEISIO A'R MANNAU PLEIDLEISIO |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO: | CYNGHORYDD J. R. JONES. |
| AWDUR: | Dilys Phillips,<br>PENNAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD |

**1. <u>Y PENDERFYNIAD A GEISIR.</u>**

1.1 Gofynnir i'r Cyngor benderfynu ar y cynigion terfynol ar gyfer dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio a leolir o fewn y Sir.

**2. <u>Y RHESWM PAM Y CEISIR PENDERFYNIAD.</u>**

2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol rannu'u hardal i ddosbarthau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol ac i ddynodi mannau pleidleisio ar gyfer y dosbarthau pleidleisio hyn ac i'w hadolygu'n gyson.

2.2 Dan Adran 18C(1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, (fel y'i hymgorfforwyd yn Neddf Gweinyddu Etholiadol 2006), mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu pob dosbarth pleidleisio a man pleidleisio erbyn diwedd 2007, ac o leiaf bob pedair blynedd wedyn.

2.3 Wedi cwblhau'r adolygiad rhaid i'r Cyngor baratoi cynigion terfynol ar gyfer y dosbarthau a'r mannau pleidleisio newydd ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau a wnaed. Cynhaliwyd yr adolygiad yn Hydref, 2007 ac adroddwyd ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ar 11, Rhagfyr, 2007. Penderfynodd y pwyllgor argymell i'r Cyngor gytuno i'r newidiadau terfynol ar gyfer dosbarthau a mannau pleidleisio fel y manylir yn yr Atodiad.

**3. <u>DOSBARTHAU PLEIDLEISIO, MANNAU PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO.</u>**

3.1 <u>Diffiniad o dermau:</u>
**Dosbarth Pleidleisio:** yr ardal a grëir trwy rannu etholaeth, ward neu ranbarth i rannau llai, a ble y gellir pennu man pleidleisio sy'n gyfleus i etholwyr.

**Man Pleidleisio:** yr adeilad neu'r ardal a ddewisir ar gyfer lleoli'r gorsafoedd pleidleisio.

**Gorsaf Bleidleisio:** yr adeilad neu'r ystafell a ddewisir gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer y bleidlais.

3.2 Rhaid i ddosbarthau pleidleisio fod wedi'u lleoli'n gyfan gwbl y tu mewn i ardal cyngor cymuned. Gall bod mwy nag un dosbarth pleidleisio o fewn cymuned os byddai'r dosbarth fel arall, yn rhy fawr i ddarparu mynediad hawdd (e.e. am resymau daearyddol) neu ar gyfer dibenion gweinyddol yn nhermau nifer yr etholwyr yn y rhanbarth.

3.3 Rhaid nodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth pleidleisio. Cyfrifoldeb y Cyngor yw dynodi dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio.

3.4 Cyfrifoldeb Swyddog Canlyniadau'r etholiad yw dynodi gorsafoedd pleidleisio. Dylid nodi y bydd angen newid gorsafoedd pleidleisio o bryd i'w gilydd o ganlyniad i gael gwybod yn hwyr nad yw'r adeilad ar gael. Er mwyn hwyluso'r opsiwn o newid gorsaf bleidleisio o ganlyniad i unrhyw broblemau bwriedir dynodi holl ddosbarthau pleidleisio yn y sir yn fannau pleidleisio.

3.5 Dylid nodi bod yn rhaid i'r awdurdod ddynodi mannau sy'n hygyrch i etholwyr ag anabledd cyn belled â'i bod yn rhesymol ac yn ymarferol bosib.

3.6 Rhaid i'r man pleidleisio ar gyfer unrhyw ddosbarth pleidleisio, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, fod oddi mewn i'r dosbarth hwnnw. Gall man pleidleisio y tu allan i'r dosbarth pleidleisio gael ei ddynodi mewn amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os na fydd adeiladau addas ar gael o fewn y dosbarth.

## 4. <u>Y BROSES ADOLYGU.</u>

4.1 Roedd y broses adolygu yn golygu rhoi rhybudd cyhoeddus o'r adolygiad ac anfon copïau i bartïon allai fod â diddordeb, megis cynghorwyr, cynghorau tref a chymuned, pleidiau gwleidyddol a budd-ddeiliaid eraill. Roedd hyn yn cynnwys atodlen gan y Swyddog Canlyniadau sy'n cynnwys y dosbarthau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio.

4.2 Cychwynnodd yr adolygiad ar 3 Medi, a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 12 Hydref 2007. Penodwyd Arolygwyr Gorsafoedd Pleidleisio ar gontract byrdymor i ymweld â gorsafoedd pleidleisio a chwblhau holiadur ar y cyfleusterau a'r hygyrchedd. Ymgynghorwyd hefyd gyda'r Swyddog Cydraddoldeb.

## 5. <u>CANLYNIAD YR ADOLYGIAD.</u>

5.1 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cymeradwyo'r trefniadau presennol tra bod rhai wedi gwneud sylwadau ynglŷn â rhai o'r adeiladau sydd ar y rhestr o orsafoedd pleidleisio sy'n bodoli.

5.2 Rhoddwyd crynodeb o'r sylwadau a gafwyd gerbron y Pwyllgor Craffu, ynghyd â'r ymateb a awgrymid i'r sylwadau. Cafodd y pwyllgor gyfle i graffu ar y trefniadau ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.

5.3 Cyn belled â bod ffiniau dosbarthau pleidleisio yn y cwestiwn, bydd yn rhaid eu hadolygu'n gyson yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae datblygiadau tai yn sylweddol. O ganlyniad i dri newid mewn ffiniau ward gymuned (Gerlan/Rachub, Dolgellau a Thywyn) newidiwyd y dosbarthau pleidleisio cyfatebol i adlewyrchu'r trefniadau newydd.

## 6. <u>ARGYMHELLIAD.</u>

6.1 Bod y Cyngor yn cytuno i'r dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio fel a fanylir yng ngholofn 1 o'r Atodiad.

6.2 Bod y Cyngor yn nodi'r lleoliadau ar gyfer gorsafoedd pleidleisio fel a fanylir yng ngholofn 2 o'r Atodiad.